# Cynllun Corfforaethol 3 Blynedd yr ASB: Crynodeb Gweithredol

Mae’r cynllun corfforaethol 3 blynedd hwn (y cynllun) yn disgrifio sut y byddwn yn troi uchelgeisiau ein strategaeth yn gamau gweithredu cadarn.
PDF
Gweld Cynllun Corfforaethol 3 Blynedd yr ASB as PDF(Open in a new window) (718.88 KB)

Yn 2022, gwnaethom gyhoeddi ein strategaeth bum mlynedd ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Mae ein strategaeth yn cadarnhau mai “bwyd y gallwch ymddiried ynddo” yw ein cenhadaeth o hyd, a’n gweledigaeth ar gyfer y system fwyd yw un lle mae bwyd yn ddiogel, lle mae bwyd yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label, a lle mae bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy. Mae hefyd yn nodi ein rolau a’n hegwyddorion arweiniol.

Mae’r cynllun corfforaethol 3 blynedd hwn (y cynllun) yn disgrifio sut y byddwn yn troi uchelgeisiau ein strategaeth yn gamau gweithredu cadarn.

Mae’r cynllun yn dechrau drwy ddatgan ein huchelgais ar gyfer ein cenhadaeth a phob rhan o’r weledigaeth. Yn ystod y 3 blynedd nesaf rydym yn dymuno:

- cynnal y lefelau uchel o ymddiriedaeth a hyder sydd yn y system fwyd a’r ASB ar hyn o bryd
- cynnal safonau bwyd, fel bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label, ac fel bod defnyddwyr yn gallu parhau i fod â hyder yn eu bwyd
- cynyddu ein cyfraniad at – a’n dylanwad ar – fwyd sy’n iachach ac yn fwy cynaliadwy, gan adeiladu ar y gwaith rydym wedi’i ddechrau ers i ni gyhoeddi ein strategaeth

Mae’r cynllun hefyd yn manylu ar sut y byddwn yn gwneud hyn – drwy naw amcan sy’n cyd-fynd â’n rolau, gan gynnwys gwaith craidd a gwaith newid. Mae’r rhain wedi’u rhannu’n weithgareddau manylach yn yr atodiad, gan roi cyfeiriad i’n cynlluniau busnes blynyddol.

**Cynhyrchydd tystiolaeth (craidd)**: Sicrhau bod ein penderfyniadau’n seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth, a rhannu’r dystiolaeth hon i hysbysu a dylanwadu ar eraill (defnyddwyr, busnesau a llunwyr polisi).

**Cynhyrchydd tystiolaeth (newid)**: Adeiladu tystiolaeth, gan gynnwys trwy wyddoniaeth ac ymchwil, fel y gallwn ragweld cyfleoedd a risgiau ar draws system fwyd y DU.

**Lluniwr polisi (craidd)**: Gwneud argymhellion cadarn a chefnogi’r sawl sy’n gwneud penderfyniadau i wneud rhai gwybodus ar reolau yn ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid, a hynny’n seiliedig ar dystiolaeth ac asesiadau annibynnol.

**Lluniwr polisi (newid)**: Creu dull rheoleiddio cymesur, effeithiol ac effeithlon sy’n canolbwyntio ar y dyfodol drwy’r broses dadansoddi risg a gwasanaeth cynhyrchion rheoleiddiedig, sy’n diogelu defnyddwyr ac yn dileu rhwystrau i arloesi.

**Rheoleiddiwr (craidd)**: Cyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio i sicrhau bod busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cydymffurfio â’r rheolau fel bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label.

**Rheoleiddiwr (newid)**: Diwygio'r fframwaith rheoleiddio diogelwch bwyd i roi sicrwydd mwy cymesur sy'n seiliedig ar risg, nawr ac yn y dyfodol.

**Corff gwarchod**: Siarad yn gyhoeddus am feysydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr er mwyn annog safonau bwyd uchel yn y DU.

**Cynullydd a chydweithredwr**: Gweithio mewn partneriaethau ar draws y system fwyd i ddatblygu a darparu atebion gwell i ddefnyddwyr a busnesau.

**Galluogwr**: Darparu'r bobl, yr adnoddau a'r prosesau sydd eu hangen i gyflawni ein hamcanion a'n blaenoriaethau corfforaethol.